Gŵyl Gorawl Gogledd Cymru
North Wales Choral Festival
20th Anniversary

Newyddion yr Ŵyl

Rhifyn 1 - Tachwedd 2007

Cynhaliwyd dathliad 20 mlynedd Gŵyl Gorawl Gogledd Cymru yn Venue Cymru, Llandudno ddydd Sadwrn 3 Tachwedd. Teithiodd 11 côr o bob cwr o'r DU ac Iwerddon i gystadlu mewn tri chategori: Ieuenctid, Unllais, a Lleisiau Cymysg. Yn ddiweddar trosglwyddwyd cyfrifoldeb am yr Ŵyl i Adran Marchnata a Chyfathrebu Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy, felly roedd hwn yn brofiad newydd i bawb.

Cychwynnodd y bore gyda pherfformiadau'r adran Ieuenctid. Roedd 3 côr yn cystadlu yn yr adran hon: Lucan Community College Choir; Côr Hŷn Glanaethwy a Chôr Iau Glanaethwy. Ar ôl trafod am hir, cyhoeddodd y beirniaid mai'r côr ieuengaf, Côr Iau Glanaethwy, oedd enillwyr y categori, a rhoesant yr ail wobr i'r côr hŷn.

Sefydlwyd y categori Lleisiau Unllais ar ôl i ddau o'r corau meibion orfod tynnu allan ar y funud olaf. Ond, wnaeth hyn ddim difetha'r cystadlu, a Chôr Meibion Shifnal enillodd y wobr gyntaf yn y categori hwn, gan guro'r Mountain Harmony Barbershop Chorus, Côr Merched Cantorion Pontyclun a The Glenalua Singers.

Enillwyr Lleisiau Unllais - Côr Meibion Shifnal

Adran olaf y dydd oedd y categori Cymysg. Roedd y categori hwn yn cynnwys Y Gleision a'r Dreigiau. Roedd y ddau gôr yma yn bresennol fel rhan o raglen S4C, 'Codi Canu'. Dim ond ers tua blwyddyn mae'r corau wedi bod yn canu gyda'i gilydd ac maent yn cynnwys cefnogwyr o dimau rygbi rhanbarthol Cymru. Y Dreigiau enillodd cyfres gyntaf y rhaglen, a chael canu'r Anthem Genedlaethol cyn gêm Pencampwriaeth y Chwe Gwlad Cymru v. Lloegr yn gynharach eleni.

Hwn oedd categori agosaf y dydd, a'r beirniaid yn gofyn a oedden nhw'n cael rhoi dau gôr yn gydradd ail. Ar ôl ystyried am 15 munud, enwyd y Gleision fel enillwyr y categori, gan guro'r Dreigiau a ddaeth yn ail. Oriel Singers a Chôr Eglwys St Patrick's oedd y corau eraill yn y categori hwn.

Cyflwyniad Enillwyr i'r Gleision

Gyda'r nos, roedd arena Venue Cymru yn llawn dop wrth i'r gynulleidfa aros yn eiddgar am berfformiadau gan bob un o enillwyr y categorïau, yn ogystal â pherfformiad agoriadol gan Y Dreigiau.

Ar ôl y perfformiad agoriadol a'r seremoni wobrwyo (lle cyflwynwyd tlws a siec i Gyfarwyddwyr Cerddoriaeth y corau buddugol gan Gadeirydd y Cyngor, y Cynghorydd Bill Roberts), cynhaliwyd cystadleuaeth olaf yr Ŵyl. Rhoddwyd 15 munud i bob un o'r corau buddugol berfformio amrywiaeth o ganeuon o'u dewis, a chafodd bob un ohonynt groeso cynnes gan y gynulleidfa.

Roedd bob un o'r corau o'r ansawdd uchaf a thalodd y beirniaid sylw at ddiffuantrwydd y perfformiadau a'r ymdrech amlwg yr oeddent wedi'i wneud ymlaen llaw. Eto, roeddent yn hir yn dod i benderfyniad ac roedd yr Arweinydd, Dilwyn Morgan, mewn hwyliau da ac yn cadw diddordeb y gynulleidfa gyda'i repertoire o jôcs, ac roedd pawb yn eu dyblau yn chwerthin yn ystod yr oedi - oedd yn dangos pa mor agos oedd y penderfyniad.

Fodd bynnag, daethant i benderfyniad a chyhoeddwyd mai Côr Iau Glanaethwy oedd enillwyr cyffredinol y gystadleuaeth, ac roedd y gynulleidfa wrth eu bodd, gan sefyll fel un i'w cymeradwyo.

Enillwyr Cyffredinol - Côr Iau Glanaethwy

Gorffennodd y noson ar nodyn uchel gyda pherfformiad i gloi gan y côr buddugol, oedd wedi cyfrannu cymaint at yr Ŵyl gyda'u brwdfrydedd.

Rhaid diolch i holl staff Venue Cymru, yn enwedig y stiwardiaid oedd yn arbennig o dda drwy gydol y dydd.

Bydd digwyddiad y flwyddyn nesaf yn cael ei gynnal **ddydd Sadwrn 8 Tachwedd** ac mae'r trefnwyr yn bwriadu datblygu'r digwyddiad yn ŵyl ryngwladol fawr. Mae gwefan yr ŵyl yn cael ei llunio ar hyn o bryd a dylai fod yn barod erbyn mis Chwefror 2008.

Bydd ffurflenni cais ar gyfer Gŵyl 2008 yn cael eu hanfon allan yn fuan, felly dewch draw a mwynhau'r Ŵyl arbennig hon, a gweld yr harddwch sydd gan Gogledd Cymru i'w gynnig.

I gael rhagor o wybodaeth ffoniwch Alun Pritchard ar 01492 575948 neu e-bostiwch alun.pritchard@conwy.gov.uk

Gyda diolch i'n cefnogwyr:

Conwy County Borough Council
Stena Line
pianos cymru